# Cwmni

Papur Sir Caerffili: Cwm Aber, Ebwy, Rhymni a Sirhywi

Rhifyn 242 Pris £1 Mis Mawrth 2022


Marjorie Thomas

**Dydd Gŵyl Dewi Hapus**

# Gareth

Cymeriad annwyl a gwylaidd - ei lais
a'i lên yn boblogaidd;
gwaith i'r iaith fu iddo'n graidd,
a'i oriau'n dwyn ffrwyth euraidd

*Diolchwn i'n bardd lleol y Doctor John Lloyd am gyfansoddi'r englyn hwn er cof am y cyfaill Gareth Wyn Williams a fu farw dridiau cyn y Nadolig*

*Cyhoeddwyd teyrnged i Gareth yn rhifyn mis Chwefror 'Cwmni'*



# Lluniau Darllenwyr

Wedi i ni gyhoeddi lluniau gwych gan ein darllenwyr yn rhifyn mis Chwefror estynwyd gwahoddiad i ddarllenwyr eraill gyfrannu rhai o'u lluniau nhw.

Yn y rhifyn hwn ein pleser yw gosod llun gan Marjorie Thomas ar glawr y papur a'r llun yma ganddi i'n darllenwyr gael ei fwynhau.

Beth am i eraill ohonoch yrru ambell lun atom? Maen nhw'n cyfrannu dimensiwn gwerth chweil i'n papur.

# Morgan John Rhys

Yn sgil suddo pwll glo Llanbradach yn 1893, ymddangosodd pentref helaeth wrth i'r perchnogion fynd ati i adeiladu nifer fawr o dai teras. Mae'n rhaid bod hyn yn adeg gyffrous wrth i'r datblygwyr geisio darparu ar gyfer anghenion y boblogaeth newydd drwy ffurfio cymunedau yn un o brif bentrefi Cwm Rhymni. Aeth y capelwyr o blith y mewnfudwyr hyn ati i sicrhau fod ganddynt fan priodol i addoli. Mewn bach o amser sefydlwyd capeli ar gyfer yr Annibynwyr, y Methodistiaid a'r Bedyddwyr yn ogystal â'r Eglwys Wladol. Nid yn unig darparu ar gyfer yr amryw enwadau a wnaed ond sicrhau fod capeli ar gael yn y Gymraeg a Saesneg heblaw, wrth gwrs, am yr eglwys. Diddorol nodi, er bod tri chapel enwadol Cymraeg, fod nifer sylweddol o'r newydd-ddyfodiaid yn hanu o Wlad yr Haf.




Yn anffodus dim ond un o'r saith addoldy sydd ar agor erbyn hyn a chapel y Bedyddwyr cyfrwng Saesneg, Ebeneser, yw hwnnw. Cadwyd at y traddodiad Cymreig o enwi'r capeli â theitl o'r Beibl. Hyn o gymharu â'r arfer Seisnig o enwi'r capeli yn ôl y stryd lle'u h adeiladwyd. Mae capel Windsor Street yng Nghaerffili yn enghraifft o hyn.

Codwyd yr arian i adeiladu mannau teilwng ar gyfer Llanbradach oedd i ddod yn bentref digon sylweddol. Dengys y cofnodion i arloeswyr achos y Bedyddwyr Cymraeg gymryd hanner can mlynedd i glirio'r ddyled a godwyd er mwyn adeiladu "Seion".




Rhaid, felly, oedd dathlu dau achlysur yn y pentref: yn gyntaf roedd galw am ddathlu'r ffaith fod hanner can mlynedd wedi mynd ers cychwyn yr achos, yn ogystal â nodi'r ffaith fod y ddyled wedi'i chlirio.

Ond roedd yr arloeswyr dewr hyn am nodi digwyddiad arall oedd o gryn bwysigrwydd. Disgynnodd mantell disgynyddion Morgan John Rhys ar y gynulleidfa newydd hon. Oherwydd Bedyddiwr Cymraeg oedd ein harwr a anwyd ar lethrau'r mynydd uwchben y pentref.

Wrth gofio dau gan mlwyddiant marwolaeth Morgan John cynhaliwyd un o'r digwyddiadau yn y capel bach hwn. Daeth yr Athro Jerry Hunter, o Goleg Prifysgol Cymru, Bangor, atom. Bu'n darlithio i'r gynulleidfa ac aelod-au Cymdeithas Morgan John Rhys, brynhawn Sul 17eg o Ebrill 2004. Ei bwnc oedd "Cymry America, Radicaliaeth a Gweledigaeth".



Pan ddaeth yr achos i ben rai blynyddoedd yn ôl roedd yn rhaid achub plac gwerthfawr a osodwyd y tu mewn i'r capel yn ystod dathliadau 1944. Cafwyd anhawster dod o hyd i fan priodol i'w arddangos. Yna, cyhoeddodd Ysgol Gyfun Cwm Rhymni eu bod am wneud prosiect aml-ddisgyblaeth ar gyfer holl ddisgyblion dau safle'r ysgol ar waith a bywyd Morgan John Rhys.

Byddwn yn cyhoeddi mwy o fanylion am y prosiect hwn a'r bwriad o ail-ddadorchuddio'r plac yn safle'r Gwyndy lle mae disgyblion Llanbradach yn derbyn eu haddysg uwchradd cyfrwng Cymraeg.

*Ben Jones*

# Gardd Elin

Mae golwg eitha llwm ar ffrynt y tŷ erbyn hyn, ond nid llymder y gaeaf ydyw. Wythnos yn ôl roedd yn llawn tyfiant afreolus y planhigyn bach pert hwnnw, *Mexican Fleabane (Erigeron karvinskianus - "chweinllys Mecsico"* yn y Gymraeg, efallai*)*. Mae hwnnw'n gwmwl o flodau bach gwynion trwy gydol yr haf a'r hydref, ac mae'n dal i fwrw rhyw faint o flodau trwy'r gaeaf hefyd. Mae'n cael ei edmygu'n gyson! Ond unwaith mae'r planhigyn hwn yn dechrau tyfu yn eich gardd mae'n tyfu'n wyllt ymhobman. Rwy'n ei hoffi'n fawr, felly'n eitha bodlon i adael iddo feddiannu ffrynt y tŷ, gan ei docio ychydig nawr ac yn y man.

Ond daeth fy nghyfnither Siân draw yr wythnos diwethaf Mae hi'n hyderus iawn wrth arddio, a'r ddawn ganddi i wybod sut i greu gardd bert ffyniannus - Yr Ardd Hardd, fel petai. Nid yw'r ddawn honno gen i. Er fy mod yn llwyddiannus iawn wrth dyfu rhai llysiau (ie, megis cêl!) nid yw blodau'n gwneud cystal dan fy ngofal. Mor wahanol yw hi yng ngardd Siân! Mae'n rhyfeddod o liwiau, persawrau a siapau difyr o'r gwanwyn i'r gaeaf.



Un o ddulliau Siân o sicrhau llwyddiant ei phlanhigion yw eu tocio'n feiddgar a'u chwynnu'n dda - wel, eu torri 'nôl yn galed a chlirio'r pridd yn llwyr, i fod yn blaen. Pan gyrhaeddodd yr wythnos diwethaf, arhosais yn nerfus iawn i glywed ei sylwadau ar yr ardd lysiau yng nghefn y tŷ. Bwriodd olwg drosti, a theimlais yn browd reit i glywed, "Wel, mae hwn yn edrych yn ddigon llewyrchus, yn wir."

Felly, mentrais gynnig dysglaid hamddenol o goffi - ond dwedodd, "Caf i gip ar yr ardd ffrynt yn gyntaf." O diar! Gwahanol iawn oedd y dyfarniad yno. Felly, dysglaid frysiog iawn a gawson ni cyn i Siân fynd ati. "Braich a bando" fyddai disgrifiad 'nhad-cu o'i dull o weithio. Nid oedd yn oedi na phetruso dim - aeth ati i dorri 'nôl i'r bôn, palu mewn i'r gwreiddiau a dadwreiddio rhai planhigion yn gyfan gwbl. A 'ngwaith i? Clirio'r toriadau i ffwrdd, a chynnig cymorth nawr ac yn y man…

A dyna'r rheswm dros olwg llwm yr ardd ffrynt nawr. Nid effaith tywydd garw'r gaeaf sydd i'w weld yma, er mor wael fu tywydd Chwefror eleni, ond effaith gwaith garddwreg hyderus. Ac mae'r cennin Pedr bach yr anghofiais amdanyn nhw i'w gweld yn codi eu pennau eto. Mae'r tyfiant gwyllt y chweinllys wedi ei dorri yn ôl. A ddaw eto tybed? A fydd yn meddiannu'r llwybr at y drws ffrynt, a'r wal o flaen y tŷ hefyd? Ond am y tro, ac er mor llwm yw golwg y ffrynt, gwanwyn ac nid gaeaf sydd i'w weld yn y pridd!

## ☆ Galwad am Aelodau Newydd i'r Pwyllgor ☆

CYLCH MEITHRIN YR ENFYS

Allech chi roi awr neu ddwy bob wythnos i gefnogi staff gwych Cylch Meithrin Yr Enfys yn Ystrad Mynach?
Mae'r Cylch wedi ei leoli yn y Clwb Bechgyn a Merched ar Ffordd Lisburn ac mae tua 16 o blant yn mynychu bob bore.
Ydych chi: yn angerddol am y Gymraeg? Â diddordeb mewn cefnogi addysg blynyddoedd cynnar a gofal plant? Yn awyddus i gwrdd ag aelodau eraill o'r gymuned? Yn barod i gyfrannu at eich cymuned leol?
Os ellwch chi sbario ychydig o amser i gefnogi'r Cylch, cysylltwch â ni.

Os oes diddordeb, cysylltwch ag Eira Bowen, eira.bowen@meithrin.cymru neu 07792 652808.
Eira Bowen, Swyddog Cefnogi Cynorthwyol, Gogledd Caerffili, Blaenau Gwent, Gogledd Mynwy (dros dro)

# Cofio Eleri Miles Rogers

## 1935-2022

Ar ddiwrnod cyntaf 2022, mi ffarweliodd Cymru ag un o'i merched mwya triw i'w hiaith a'i diwylliant – Eleri Miles Rogers.

Magwyd Eleri a'i chwaer Nest ar aelwyd Gymraeg a Chymreig yn Lluest Wen, Hillside, Caerffili. Trosglwyddodd eu rhieni, oedd yn athrawon yn y dref, eu cariad at yr iaith Gymraeg a'i diwylliant i'w dwy ferch yng nghanol môr o Saesnigrwydd y dref. Buodd y merched yn rhan o ddyrnaid bach iawn o Gymry Cymraeg a fynychai Ysgol Ramadeg y Merched Caerffili yr adeg honno. Ond aelwyd gwbl Gymraeg oedd aelwyd Lluest Wen, ac yn y winllan Gymreig a diwylliedig honno mi flodeuodd angerdd Eleri at bopeth yn ymwneud â'i mamiaith a'i gwlad enedigol.

O'r ysgol ramadeg, aeth Eleri i Goleg Prifysgol Cymru, Aberystwyth, lle enillodd radd yn y Gymraeg. Dechreuodd ei gyrfa dra llwyddiannus yn trwytho plant Cymru yn iaith, hanes a diwylliant eu gwlad yn gyntaf yn Abergwaun a wedyn yn Ysgol Cathays, Caerdydd. Ymgartrefodd Eleri a'i gŵr Moc yng Nghroes Cwrlwys, Caerdydd, a magu dau o blant yno, Owain ac Angharad.

Ys dywed yr ymadrodd, 'Os am gael rhywbeth wedi'i wneud, gofynnwch i rywun prysur.' A dyna Eleri i'r dim, menyw tra phrysur a dweud y lleiaf. Roedd ei CV yn hirfaith. Roedd hi'n un o'r athrawon cyntaf i ddysgu ar gwrs Wlpan Coleg Prifysgol Caerdydd, cyflwynodd raglen wythnosol ar Radio Cymru ('Cil y Drws') ac ysgrifennodd erthygl wythnosol i'r Cymro ('Pilcota') am dair mlynedd ar ddeg. Roedd hi'n aelod o Banel Llenyddiaeth Plant Cyngor Celfyddydau Cymru ac roedd hi ar y panel a gomisiynodd addasiad newydd o Chwedlau'r Mabinogi. Rhannai ei gwybodaeth eang am hanes a diwylliant Cymru gyda nifer helaeth o fudiadau ar ystod eang o bynciau - o Idris Davies, bardd o'i chwm genedigol i'r pensaer Frank Lloyd Wright. Rhannai hefyd ei chariad at Dribannau Morgannwg, cariad a fagwyd gynt ar aelwyd Lluest Wen. Roedd Eleri hefyd yn gyfieithydd dawnus iawn ac addasodd lyfrau plant i'r Gymraeg gan gynnwys 'Where the Wild Things Are' gan Maurice Sendak i 'Yng Ngwlad y Pethau Gwyllt'.

Mi gefais i'r fraint, a braint fawr oedd hi'n wir, i gydweithio ag Eleri pan ymunodd â Gwasanaeth Ymgynghorol y Gymraeg, Gwent, yn nawdegau'r ganrif ddiwethaf. Roedd hi'n aelod o dîm o diwtoriaid iaith dawnus iawn a greodd ac a gyflwynodd gwrs iaith arloesol i athrawon cynradd ail-iaith Gwent. Nid tasg hawdd oedd hon ond llwyddodd Eleri yn ei ffordd ddihafal, annwyl a llawn hiwmor i ysbrydoli cannoedd o athrawon, hyd yn oed y rhai mwyaf styfnig a gwrthwynebus, i ddysgu Cymraeg ac ymfalchïo yn eu Cymreictod. Roedd ei sesiynau iaith yn llawn hwyl ac egni. Ar ddiwedd pob prynhawn, cafodd yr athrawon wers ar hanes a diwylliant Cymru – hanes Arglwyddes Llanofer, caneuon, celf a chwedlau Cymru ac wrth gwrs, Tribannau Morgannwg. Aeth hi â grwpiau o athrawon o gwmpas Llanofer bob haf a dod â'r hanes yn fyw iddynt. Rwyf yn meddwl yn aml bod dylanwad Eleri ar y Gymraeg yng Ngwent yn llawer mwy na dylanwad yr Arglwyddes ei hunan!

Mae teulu Eleri, ei ffrindiau a Chymru wedi colli menyw annwyl, hawddgar a dihymhongar iawn ond rwyf yn hyderus y bydd ei dylanwad ar yr iaith a Chymreictod yn parhau. Mi wn ei bod hi wedi pasio'r baton Cymreig ymlaen at eu hannwyl blant, Owain ac Angharad.

Gaerffili a Chwm Rhymni, ymffrostiwch yn y ffaith bod Eleri Miles Rogers wedi'i magu ar un o'ch aelwydydd chi.

Coffa da amdani. *Caroline Davies*

# Paradwys

***Ar ôl ymweld ag oriel yr arlunydd Alun Davies ym Mhorthgain, Sir Benfro***

Mae'n offrymu, mewn fframiau,
Liwiau byw ei annwyl bau.
A rhoi ar lwyfan, drwy lifyn,
Helaethder o geinder gwyn
Y bae, dan ddisgleirdeb byw
Ei orwelion amryliw -
Awyr dwym, a'i môr o des
Gwinau yn fantell gynnes.

Mae'n brwsio'r cwm yn brisiau,
Yn taro rhwyd dros y trai
I hel llun o grombil llwyd
Yr heli ger ei aelwyd,
I ddal gwyrth ddel i'w gwerthu:
Dyfrlliw hardd drudfawr o'r lli.
Crefft ei fasnach yw bachu
Ei bunnoedd o'r dyfroedd du;

Sawl punt, fesul paentiad
O'i le hoff, o'i annwyl wlad,
Sy'n ddigon i fodloni
Pris anghyfforddus y ffi
Am enaid ei gymuned?
Y doll lem ar hyd a lled
Ei gartref a'i gynefin,
Hen gost sy'n duo man gwyn.

Ar ei wyneb, mae rhyw wên
Yn oleuni, fel haenen
Denau sy'n cadw'i hunan
Wrthom, rhagom, ar wahân.
Ei wên fach sydd fel wal fud:

I ni'r heidiau sy'n rhodio
Dalen frau dwylan ei fro,
Mae'n lle sydd yn byw mewn llun
Hudol, ond rhithiol wedyn.
Naws a syniad sy'n swyno
Eneidiau'r rhai ddaw am dro.
Y delfryd sydd yn hudo,
Sydd yn cymell cell y co'
I fyw mewn nefoedd na fu:
Delw nad yw'n bodoli.

Alun yw'r brodor olaf
Ymhlith mintai o dai haf.
Erydu mae'i baradwys -
Y caeau a'r glannau glwys.
Yn y tipyn iwtopia
Hwn wedi bwrlwm yr ha',
Dŵr y lli yw godre'r llen
Yn golchi fel y galchen
Ar ei gynfas, drwy'r gwynfyd
Symudliw, ond gwyw i gyd.
Dileu'i lun wna'r dilyw oer
Yn dynesu'n don iasoer
A thai gwag ei hen Borthgain
Yno'n gwylio, yn gelain.

***Gruffudd Gwynn***

***Dyma'r gerdd a enillodd i Gruffudd Dlws yr Ifanc yn Eisteddfod Gadeiriol Caerdydd Gweler rhifyn mis Chwefror am fanylion y gystadleuaeth.***

## Dosbarth Llenyddol Wyn

Mae croeso i chi ymuno â ni yn ein cyfarfod nesaf ar yr 2ail o Fawrth.
Dyma ni, beth amdani?

**Rhyddiaith gan gynnwys y Stori Fer**
**Mawrth 2ail am 7:30**

I gael rhagor o wybodaeth ac i dderbyn y ddolen Zoom, cysylltwch â Wyn (JamesEW@caerdydd.ac.uk)

# Hen Gyfaill yn y Gegin

Dros hanner canrif yn ôl roedd tair menyw ifanc yn sefyll yng nghegin fflat ar lawr uchaf tŷ yn un o faestrefi Rhydychen, ac yn edrych yn anobeithiol ar ei gilydd. Newydd raddio oeddynt, wedi llwyddo yn eu gyrfa academaidd, wedi cael eu derbyn i gyrsiau ôl-raddedigion yn y brifysgol - ond dim syniad ganddyn nhw sut oedd cadw tŷ neu baratoi bwyd.

Roedd eu mamau'n gyfrifol am eu hanwybodaeth, mewn gwirionedd, trwy eu hannog i "ganolbwyntio ar y gwaith ysgol" a darparu prydiau bwyd blasus bob dydd o'r flwyddyn, heb ofyn am help ganddynt. Doedd dim disgwyl i ddynion wneud dim yn y gegin nac o gwmpas y tŷ yn y dyddiau hynny. Ond dros yr haf ar ôl iddynt raddio, dechreuodd eu mamau roi rhai gwersi syml iddynt ar gadw tŷ, a'u dysgu sut i wneud cwpl o brydiau bwyd syml hefyd. Ond fe flinon ni (ie, roeddwn i'n un o'r merched di-glem fu'n sefyll yn y gegin honno yn hydref 1966) ar yr un gyfres o brydiau syml bob wythnos.




Ac yna fe ddaeth Katherine Whitehorn i'n helpu - wel, nid Katherine ei hun, oedd yn ohebydd enwog iawn ar y pryd - ond ei llyfr *Cooking in a Bedsitter*. Fel y gwelwch, mae golwg eitha gwael ar fy nghopi i o'r llyfr erbyn hyn, a gyhoeddwyd yn 1965. Ond os taw segurdod yw clod y cledd, yn sicr mae golwg racsog yn glod unrhyw lyfr coginio! Dyma fy nghyfaill mewn sawl cegin dros y blynyddoedd, ac mae'n dal i gynnig ryseitiau sy'n codi fy nghalon am eu bod mor syml ac yn flasus hefyd. Felly, dyma un o'n ffefrynnau ar gyfer diwrnod oer a gwlyb yn y gaeaf: "**Caserol Selsig Creol**" (h.y. mae powdwr tsili ynddo - nid oes dim byd arall egsotig ynddo o gwbl).



| | |
|---|---|
| 2 selsigen | 1 winwnsyn wedi ei falu |
| ychydig o bowdwr tsili | 1 tomato |
| ½ cwpanaid o reis | garlleg (opsiynol) |
| cwpanaid o ddŵr neu stoc | |

Ffriwch y selsig mewn olew, gyda'r winwns a'r garlleg. Unwaith i'r winwns droi lliw, ychwanegwch y tomato (mewn darnau), y dŵr neu stoc, y powdwr tsili a halen a phupur. Gadewch i'r cyfan fudferwi am hanner awr.

A dyna ni! Syml iawn, ond mae modd ychwanegu ato, wrth gwrs, a defnyddio cynhwysion llawer mwy difyr na'r rhai yn y rysáit gwreiddiol. Ond gair o gyngor: byddwch yn ofalus gyda'r powdwr tsili! Dysgais i fod yn garcus iawn ohono tuag wythnos ar ôl prynu'r llyfr…

Clwb Cerddoriaeth Cwm Rhymni

## Gwneud Feiolinau


*John Watkins yn sôn am wneud offerynnau llinynnol gyda darluniadau cerddorol*

**Dydd Sadwrn, 12fed o Fawrth 2:30**

**Canolfan Gristnogol Siloh, Ystrad Mynach**

# Hanes Cymdeithas Hanes

Eleni mae Cymdeithas Hanes Gelligaer yn dathlu ei phen-blwydd yn 60. Cafodd ei sefydlu gan y tîm o haneswyr brwd fu'n gyfrifol am ysgrifennu *The Gelligaer Story*, a gyhoeddwyd gan Gyngor Ardal Drefol (*Urban District*) Gelligaer yn 1959. Un o'r rhesymau dros gyhoeddi'r llyfr hwnnw oedd nodi hanner can mlwyddiant y Cyngor ei hun, a sefydlwyd yn Ardal Drefol yn 1908. Rheswm arall, yn ôl rhagymadrodd y llyfr, oedd cyhoeddi hanes safonol hen blwyf Gelligaer fyddai'n apelio at y cyhoedd yn gyffredinol. Mae'r rhagymadrodd yn nodi taw syniad un dyn oedd hwnnw, sef Mr Gethin Thomas o Hengoed.




Un o swyddogion Swyddfa Stadau'r Bwrdd Glo oedd Mr Thomas ar y pryd, ond yn hanesydd brwdfrydig. Aeth ymlaen i gyfrannu'n helaeth i waith y Gymdeithas a daeth yn Aelod Oes yn 1972. Fe oedd ysgrifennydd cyntaf Cymdeithas Hanes Gelligaer, ac, yn ôl y rhagymadrodd i'r gyfrol gyntaf o *Drafodion* (*Transactions*) y Gymdeithas, yn gyfrifol hefyd, gyda Chlerc Cyngor Gelligaer, am *production and custody* y trafodion hynny.

Mae'r geiriau - a'r geiriad - yn ein hatgoffa am y newid a fu dros y 60 o flynyddoedd sydd wedi mynd heibio ers i gyfarfod sefydlu'r Gymdeithas gael ei gynnal yn Swyddfeydd y Cyngor, Hengoed, ar Dachwedd 22ain, 1961. Cafodd y Cyngor ei hun ei sefydlu yn 1908 yn dilyn twf aruthrol y diwydiant glo yn yr ardal hon ar ddechrau'r ugeinfed ganrif, a'r cynnydd yn y boblogaeth. Cyn hynny bu Gelligaer yn rhan o Gyngor Ardal Wledig Gelligaer a Rhigos. Daeth Cyngor Gelligaer ei hun i ben yn 1973, yn dilyn Deddf Llywodraeth Leol 1972. Erbyn hyn, yn dilyn newidiadau eraill yng nghyfundrefn llywodraeth leol, mae'r ardal yn rhan o Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili.



Erbyn hyn hefyd does dim byd ar ôl o swyddfeydd urddasol Cyngor Gelligaer fu'n sefyll ar gornel Park Road yn Hengoed, er bod olion yr hen wal ffrynt i'w gweld o hyd. Mae'r orsaf dân fechan oedd ar yr un safle wedi ymgartrefu nawr ger Ysbyty Ystrad Fawr.

Y diwydiant glo oedd yn gyfrifol am newid statws Gelligaer, ac roedd y diwydiant hwnnw ar ei anterth yn 1908. Roedd yn dirywio'n gyflym erbyn 1961, er ei fod yn bwysig o hyd i'r economi lleol. Mae'r diwydiant hwnnw wedi diflannu'n gyfan gwbl erbyn heddiw, a'r nentydd du fu'n rhedeg i afon ddu Rhymni ei hun yn byrlymu'n glir unwaith eto.

Os oes newid wedi bod yn y tirwedd a'r diwydiant, ac yn nhrefniadau llywodraeth leol, mae newid aruthrol wedi bod ar ddiwyg ac arddull cyhoeddiadau'r Gymdeithas dros y blynyddoedd. Nid gwaith teipiadur a phapur carbon sydd gennym o'n blaen nawr, ac mae lluniau'n rhan hanfodol o bob cyhoeddiad. Ffarweliwyd â'r sioeau sleidiau ers blynyddoedd, ac nid *Trafodion* sydd gan yr aelodau i'w darllen heddiw, ond cylchlythyron digidol. Byddai sefydlwyr y Gymdeithas yn synnu hefyd wrth weld ei chyfarfodydd diweddar yn cael eu cynnal ar Zoom…

Mae newid sylweddol wedi digwydd yn statws cymdeithasol a chyfreithiol menywod dros y blynyddoedd hefyd. Nid oedd pleidlais ganddynt yn 1908. Erbyn 1962, roedd y bleidlais ganddynt, ond nid oedden nhw wedi dechrau chwarae rhan amlwg mewn bywyd cyhoeddus, er bod pethau'n newid.

Does dim un fenyw wedi ei rhestru ar banel ymchwil na phanel golygyddol y *Gelligaer Story*, ond erbyn i rifyn cyntaf y Trafodion gael ei gyhoeddi, roedd un fenyw yn aelod o bwyllgor y Gymdeithas, sef Mrs Marion Thomas. Mae'r rhestr aelodau hefyd yn cyfleu newid. O'r 44 roedd 18 yn fenywod.

Mae rhagymadrodd y Trafodion cyntaf yn nodi hefyd y pwysigrwydd o ddenu aelodau ifanc, ac yn ymfalchïo yn y 18 o *students* sydd ar y rhestr aelodaeth yn barod. Darlun gwahanol iawn sydd i'r aelodau ifanc – 18 ohonynt, a dim ond dau ohonynt yn fechgyn.

Beth sydd yn digwydd gyda'r to ifanc? Ton o ffeministiaeth wedi taro'r ardal? Nid yw'r hanes i gyd ar gael mewn llyfrau: mae llawer ohono yn llechu yng nghof unigolion, ac rwy'n cofio taw nid chwyldro cymdeithasol sydd i'w ganfod yma, ond dylanwad un fenyw – y Mrs Marion Thomas honno oedd newydd ymuno â'r pwyllgor. Hi oedd pennaeth deinamig adran Hanes Ysgol Lewis i Ferched ar y pryd. Doedd neb yn gweud "na" wrth Mrs Thomas!



Mae ei dosbarth Lefel A Hanes yn 1962 yno bob un, gan gynnwys awdur y darn hwn, er bod newid wedi bod ar ei henw hi hefyd.

Mae'r Gymdeithas Hanes a sefydlwyd y noson honno yn 1961 yn dal i ffynnu. Hir oes iddi! Boed iddi gofnodi – ac adlewyrchu – hanes ei hardal am flynyddoedd i ddod.

Adeiladwyd yr 'Orsaf Dân' yma yn 1910, yn ôl yr arysgrif arno. Arferai sefyll wrth ochr hen swyddfeydd y cyngor yn Hengoed, a'i ddrws ffrynt yn agor ar y pafin. Rwy'n siŵr fod Cyngor newydd Gelligaer yn falch iawn ohono - "state of the art" yn 1910! Symudwyd i'w safle bresennol (neu'n agos iddi) pan symudodd y Cyngor o Hengoed i Ystrad Fawr. Nid oedd y Cyngor newydd am gael yr hen degan ar ei safle newydd ym Mhenallta, mae'n debyg, er bod digonedd o le yno! Ar dir Ysbyty Ystrad Fawr mae e bellach.




*"Mae'r Dystysgrif Bedydd yn perthyn i hen hen Bopa fy ngwraig Lyn/wi n meddwl?"*
*Diolch i Byron Shide*







Sarhad ar ein cenedl yw bod yn rhaid i ni bellach gario trwydded yrru â bathodyn Jac yr Undeb arni. Gwrthododd llywodraeth San Steffan bob cais i ddarparu fersiwn yn arddangos y Ddraig Goch ar ein cyfer ni'r Cymry. Mae pob gyrrwr newydd neu'r sawl sydd yn saith deg ac yn gorfod gwneud cais am drwydded newydd yn gorfod plygu i drefn awtocratig.

Ond cynhyrchodd gwasg Y Lolfa, am bris rhesymol, sticeri y gellir eu defnyddio i orchuddio'r sen hon ar ein gwlad. Mae gan olygydd "Cwmni" rai yn ei feddiant. Os am unioni'r cam, cysylltwch â ni neu â Gwasg y Lolfa.

# Ysgol Ifor Bach

## Menter Gwyrdd Cefn Llwyd



Eleni rydym ni yng nghlwm â phrosiect cyffrous iawn. Rydym yn datblygu ein sgiliau entrepreneuriaeth trwy dyfu llysiau a ffrwythau ffres a'u gwerthu i blant yr ysgol a'r gymuned er mwyn annog pobl i fyw'n iach







Er mwyn codi arian i adeiladu ein rhandir dosbarth personol cynhaliom ni ras mwd ac yna gwerthom ni afalau siocled i blant yr ysgol.

Rydym eisioes wedi codi £567

Rydym yn ffodus iawn i gael bocs rhandir yn Rhandir Cwm Aber ble rydym ni yn dysgu a datblygu ein gwybodaeth tra'n gweithio gyda thrigolion y pentref.









Mae gennym ni FWYDOD hefyd. Daethant trwy @urbanfarmers yn ystod wythnos cynhadledd COP26. Maen tyn bwyta ein sbarion gwastraff. Rydym yn defnyddio'r compost ar gyfer ein plannu. Maen tyn bryfed bach diddorol tu hwnt



Rydym ni wrthi yn cynllunio er mwyn gwella'n ardal tu fas i'r dosbarth i fod yn fwy naturiol a gwyrdd. Rydym eisiau bod yn fwy iachus a chynaliadwy a theimlo ni bod hwn yn bwysig iawn i ni ac i blant yr ysgol.







Cafodd dosbarth Mynydd Meio'r cyfle i ddathlu eu doniau yn ystod yr wythnos . Mae'r dosbarth yn llawn o blant talentog tu hwnt….. Plant sy'n dawnsio'n arbennig, sy'n arlunio'n wych, yn chware pel -droed yn gampus a rhai sy'n chwarae'r gitâr…..

# Dathlu doniau Mynydd Meio







CaCyfle i gyflwyno'u tystysgrifau pêl droed, rygbi a nofio i'w ffrindiau.


Diwrnod cyffrous yn dysgu am fasnach deg. Cawsom lawer o hwyl yn canu,dawnsio a dysgu am daith y banana. Roedd ein hysgytlaeth fanana masnach deg yn flasus tu hwnt!! …. Am hwyl!!

# Clwb Darllen Cwmni




Dyma'r drydedd nofel yn y gyfres am y Ditectif Taliesin MacLeavy. Fel mae teitl pob cyfrol gan John Alwyn Griffiths yn dechrau gyda "Dan" felly, hefyd mae'r nofel Alun Davies yn dechrau gyda "Ar". Does dim ots os nad ydych wedi darllen y ddwy nofel gyntaf oherwydd mae plot Alun Davies yn datblygu mewn dull cwbl ddealladwy wrth iddo roi eglurhad o gefndir MacLeavy.


Erbyn adeg 'Ar Daith Olaf' mae Taliesin wedi ymddeol fel ditectif o achos atgofion hunllefus am ei waith. Mae e wedi dechrau cyfrannu i bodlediad gyda newyddiadurwraig am droseddau gwir o'r gorffennol. Mae hwn yn arwain at droseddau hunllefus newydd. Mae'r llyfr wedi'i ysgrifennu mewn dull sy'n boblogaidd y dyddiau hyn. Mae pob cymeriad yn adrodd y stori yn eu tro o fewn penodau unigol eu hunain. Cymerodd hi amser i'r gwahanol onglau lynu at ei gilydd i greu stori lyfn. Serch hynny, mae'r hyn sy'n digwydd yn ddigon clir a, gan bwyll, mae'r *tempo* yn cynyddu wrth i'r plot ddatblygu. Mae nifer o bosibiliadau yn codi fel ateb i'r dirgelwch, ond mae pob un, yn ei dro, yn anghywir. Pwy yw'r llofrudd? Fel mae Llwyd Owen yn dweud, "cyfoes a chynhyrfus - beltar o stori!" Clywch! Clywch!




Dyma un diwrnod ym mywyd Lili sy'n mynd drwy'r menopos. Mae ganddi hi obsesiwn gydag amser a'r galw am ysgrifennu amserlen ar gyfer pob dydd. Teitl pob pennod yw'r amser. Ar y diwrnod sydd yn y llyfr mae hi'n gwneud ymdrech anferth i fod yn hwyr a di-drefn. Mae hi'n sylweddoli bod ei chynllun am y dydd yn anwybyddu pobol, ac mewn gwirionedd mae pobol yn torri ar draws ei hamserlen.

Mae'r menopos yn cael y bai am bopeth sy'n mynd o'i le. Yn ystod y dydd mae llawer o ddigwyddiadau damweiniol. Mae Lili yn rhannu ei meddyliau gyda Mrs Dalloway. Dydy hi byth yn y ffordd, na'n troi lan yn annisgwyl i amharu ar gynlluniau Lili. Ond pwy yw hi? Nofel ysgafn yw hon sy'n codi gwên bron ar bob un dudalen, a sawl peth sy'n taro deuddeg gyda phawb.

Y ddegfed nofel gan feistr ysgrifenwyr nofelau ditectif yn y Gymraeg yw hon. Fel y naw arall, "Dan" yw gair cyntaf y teitl, yn ymestyn o'r gyntaf, 'Dan y Wyneb' hyd at y nawfed, 'Dan Fygythiad'.





Y Ditectif Sarjant Jeff Evans yw'r arwr unwaith eto, mewn nofel sy'n dangos gwybodaeth ddwys yr awdur o drefniadaeth a dull o weithio plismyn proffesiynol. Gwelwn yn glir sut y maent yn defnyddio hysbyswyr a'r rhain, yn enwedig Nansi'r Nos, yn allweddol ym mhlot y ddegfed nofel. Defnyddia dermau technegol â rhwyddineb llyfn ac rydym ni, darllenwyr nofelau ditectif Cymraeg, yn cyfarwyddo â lecsicon arbenigol termau Cyfraith a Throsedd a Phatholegol yr Heddlu fel, 'troseddwyr cyfresol', 'Browning Rhannol Awtomatig', DBA (Ditectif Brif Arolygwr).

Mae'r camsyniadau a'r camddealltwriaeth yn dechrau'n araf, fel er enghraifft y cymysgu sydd rhwng Glenda Hughes a Dilys Hughes. Drwgweithredwyr o Saeson sydd yn baglu dros enwau Cymraeg. Mae'r gamddealltwriaeth ynglŷn ag enwau'r menywod a'r strydoedd yn gynhwysion allweddol o fewn y plot.

A gwych yw penllanw cyffrous y nofel. Dengys y nofelydd ei feistrolaeth o'i grefft drwy ein harwain i ffwrdd o gasgliad sy'n profi'n ddyfeisgar iawn. Dydy e ddim yn dweud yn union sut y maglwyd y drwgweithredwyr yn y pen draw. Ond wrth iddo osod y cliwiau a datblygu'r stori mor grefftus, mae'r darnau'n syrthio'n rhwydd i'w lle fel jig-so. Mae'r darllenwr yn deall, mae'r cymeriadau yn deall - y drwgweithredwyr sy'n methu ei deall hi!

# Colofn Dafydd Islwyn



Mae Urdd Gobaith Cymru yn gant oed eleni. Yn rhifyn mis Ionawr 1922 'Cymru'r Plant', a gyhoeddwyd gynta' yn 1892, sefydlwyd y mudiad trwy lythyr gan Ifan ab Owen Edwards. Bu cryn weithgarwch yng Nghwm Rhymni yn ystod pymtheg mlynedd gyntaf yn hanes yr Urdd. Yn 1927 roedd cangen weithgar yn Ysgol Lewis, Pengam, a oedd yn cyfarfod bob bythefnos. Roedd cangen hefyd ym Margod, Caerffili, Hengoed a Phontllanfraith. Ar yr unfed ar ddeg o Fai 1928 ymwelodd Ifan ab Owen Edwards â chyfarfod Cylch Rhymni. Ym mis Awst yr un flwyddyn mynychodd deg bachgen o adran Pengam wersyll cyntaf yr Urdd i fechgyn yn Llanuwchllyn. Dro yn ôl deuthum o hyd i lythyrau oddi wrth Iorwerth Thomas, cyn-brifathro Ysgol Gynradd Trelewis, brodor o Abertridwr a oedd yn ddisgybl yn Ysgol Pengam rhwng 1924 a 1930. Meddai, "Roeddwn yn aelod o'r Urdd cyn mynd i Bengam. Yn fy ail flwyddyn yno cadwyd Adran o'r Urdd gyda T. J. Jeffries Jones (Ystrad Mynach), y Cadfridog cyntaf a minnau yn ei ddilyn. Aeth chwech ohonom ni (mab H. D. yn un) i wersyll yr Urdd yn Llanuwchllyn yn 1928 - glaw bob dydd a ninnau mewn pabell." H. D. oedd H. D. Jones oedd yn athro Cymraeg yn yr ysgol a chyfaill R. Williams Parry. Y tri arall oedd yn y gwersyll gyda Mr Iorwerth Thomas yn ôl y gyfrol, 'The History of Lewis School Pengam' gan Arthur Wright 1929, oedd E. C. Morgan, Ystrad Mynach, J. C. Morgan, Pontlotyn a W. J. Mills, Rhymni.

Yng Ngwanwyn 1922 ymddangosodd y rhifyn cyntaf o 'Y Llenor', cylchgrawn dylanwadol yn ei gyfnod. Yn 1951 y cyhoeddwyd y rhifyn olaf, aeth i'r gwellt "oherwydd difaterwch, chwerwedd a diffyg rheolaeth ariannol." Golygydd 'Y Llenor' o 1922 hyd 1951 oedd yr Athro W. J. Gruffydd (1881-1954), Athro, Bardd a Llenor. O 1906 hyd ei ymddeoliad yn 1946 bu'n athro Cymraeg yng Ngholeg y Brifysgol, Caerdydd. Enillodd y Goron yn y Genedlaethol, Llundain 1909. Ym Mlodeugerdd Rhydychen o Farddoniaeth Gymraeg ceir pump o'i gerddi, yn eu mysg Cerdd Yr Hen Chwarelwr a'i Soned Cefn Mabli. Ei waith rhagoraf fel llenor yw ei gyfrol 'Hen Atgofion' 1936, portread o fro ei febyd. Yn 1909 priododd Gwenda, merch y Parchedig John Evans, gweinidog yn Abercarn. Chwalwyd y briodas yn 1932, gan iddo fod mewn perthynas â Miss Mary Davies, Arolygydd Ysgolion. Cyn iddi gyfarfod â W. J. Gruffydd, tua 1913, bu'n athrawes am gyfnod yn Ysgol y Merched, Gilfach Fargod, hynny cyn Rhyfel Mawr 1914-18.

Yn Rhydaman y cynhaliwyd y Genedlaethol yn 1922. A gafodd Cynan gam yng Nghystadleuaeth y Goron? Canmolwyd ei bryddest, 'Tannau Coll', ond gan fod cysgod y Rhyfel Mawr yn drwm arni a'r beirniaid wedi blino clywed am ei erchyllterau, ni chafodd Cynan ei ail Goron. Enillodd ei Goron gyntaf flwyddyn yn gynt am ei bryddest 'Mab y Bwthyn'. Yn yr eisteddfod hon, Dewi Emrys (1881-1952) oedd beirniad yr adroddwyr. Roedd yn feirniad llym ond yn adeiladol ei sylwadau. Enillwyd y gystadleuaeth am gyfres o englynion, i 'Wydderig' gan Alfa, a fu'n weinidog yn Rhydri ar ddechrau'r ugeinfed ganrif. Y Parchedig J. D. Richards, Bedlinog, oedd awdur y 'Gân Hiraeth' fuddugol i Tom Mathews, a fu'n athro Cymraeg yn Ysgol Lewis, Pengam, o 1911 tan iddo farw ar y 6ed o Fai 1916. Daeth y Parchedig J. D. Richards i Fedlinog o Drawsfynydd yn Ionawr 1918 ar ôl bod yn weinidog yno am bymtheg mlynedd. Yno bu'n aelod o'r Cylch Barddol ynghyd â Hedd Wyn. Ar yr 28ain o Awst 1917 ysgrifennodd R. Williams Parry lythyr ato. Er ei fod wedi ysgrifennu llythyr at rieni Hedd Wyn yn cydymdeimlo â nhw, teimlai nad oedd yn briodol eu holi am wybodaeth am y bardd a laddwyd ar y 31ain o Orffennaf 1917. I gael y wybodaeth angenrheidiol holodd ef y Parchedig J. D. Richards.

Pedair cyfrol a gyhoeddodd Tom Mathews, sef 'Llên Gwerin Blaenau Rhymni' (1912); 'Dail y Gwanwyn' (1916) - copi a gefais gan Iorwerth Thomas; 'Perthynas y Cwm â'r Ysgol' (1916) a 'Iolo Goch', y gyfrol olaf yng Nghyfres y Fil a olygwyd gan O.M. Edwards (1915). Yn y drydedd gyfrol uchod mae yna bennod ar yr Ysgol Sul a'r frawddeg agoriadol, "Pe bawn i yn ysgrifennu hanes rhamantus yr Ysgol Sul o'i chychwyniad yn ysgubor Graddfa Llanfabon, yn sicr gwaith diddorol a dedwydd fyddai." Ceir darlun dychmygol o'r adeilad gan G. Howell-Baker yn y gyfrol. Ef hefyd a ddarluniodd y gyfrol 'Iolo Goch'.




# Colofn y Dysgwyr

Dydd Gŵyl Dewi hapus i chi i gyd – gan obeithio byddwch yn darllen hwn erbyn Mawrth 1af. Mis Mawrth yw mis Dewi Sant – tybed faint o storïau amdano ydych chi'n eu gwybod? Rwy'n mynd i adrodd fy hoff stori am y sant ond cyn hynny, ydych chi'n gwybod pwy oedd y bobl yma? Boia? Pawl Hen neu Pawlinws? Non a Sandde? Dyma gyfle i wneud tipyn bach o ymchwil!

Ond dyma fy hoff stori i. Pam fy hoff stori? Wel, rwy'n hoff iawn o bentref bach Llanddewi Brefi yng Ngheredigion ble digwyddodd yr hanes yma. Roedd Dewi yn teithio o gwmpas Cymru i siarad â phobl am Iesu Grist. Roedd Cristnogaeth yn grefydd newydd iawn yng Nghymru yn ei amser e. Un dydd, cyrhaeddodd e yn Llanddewi Brefi. Roedd Dewi yn eitha enwog erbyn hyn a daeth llawer o bobl i wrando arno fe, cymaint o bobl a doedd llawer ohonyn nhw ddim yn gallu gweld y sant. Felly, mae'r stori yn dweud, fe fenthycodd Dewi gadach gan rywun yn y dyrfa, safodd e ar y cadach ac fe gododd y tir o dan ei draed i wneud bryn bach. Wedyn roedd pawb yn gallu gweld Dewi.

Mae'r bryn yno o hyd, ac ar y bryn mae eglwys Llanddewi Brefi.

*Ann Lewis*

Gyda llaw, oes rhai ohonoch chi wedi ysgrifennu limrig ar ôl darllen colofn y mis diwethaf? Darllenwch Cwm*ni* yn ofalus ac fe welwch bod rhai limrigau wedi cyrraedd!

*ymchwil : research* *Cristnogaeth : Christianity* *crefydd : religion* *cymaint o bobl : so many people*

*fe fenthycodd : he borrowed* *cadach : a cloth* *tyrfa : a crowd* *fe gododd y tir : the ground rose* *gyda llaw : by the way*

## Limrigau

Dyma'r limrigau a dderbyniwyd gan ein beirdd-ddarllenwyr. Pa un yw'r gorau dybiwch chi?

Mae papur bro yma 'Nghaerffili
Yn llawn o erthyglau ac ati
Pethau hynod ddiddorol
Yw'r rheini fel rheol,
Ond mae'r stwff am y cêl jest yn sili.

Mae papur bro yma 'Nghaerffili
Yn ymddangos pob mis – byth yn ffaelu
Mae'n dweud punt ar y clawr
Rhowch alwad yn awr
I'r golygydd am un o'i ffurflenni.

Mae papur bro yma 'Nghaerffili
Sy'n cynnwys y dwys a'r digri'
Does dim sôn am ein cêl
Yn y Western Mêl
O Fochriw i Sgwâr Piccadilly.

Mae papur bro yma 'Nghaerffili
Sirhywi, Cwm Ebwy a Rhymni,
Ar yr ebost yn gynt
Y mis nesa, mewn PRINT!
Dewch i'w brynu, chi'n siwr o fwynhau 'ny.

Mae papur bro yma 'Nghaerffili
Sy'n cynnwys yr od a'r sili
Chwiliwch unrhyw le
O'r Gogledd i'r De
Cewch byth well cwmni na "Cwm*ni*'.

Mae papur bro yma 'Nghaerffili
Ar gyfer pob Twm, Jac a Wili
Os yw'r teledu yn llwm
A'ch llyfr yn drwm
Darllenwch 'Cwm*ni*' yn y gwely.

# Newyddion Pwysig IAWN

Mae pwyllgor y papur bro wedi penderfynu y byddwn yn ail-gychwyn argraffu'r papur bob mis o'r cyntaf o fis Ebrill ymlaen.

Mae nifer ohonoch wedi cyfarwyddo â derbyn y papur ar-lein a rhai yn dweud ei bod yn well ganddyn nhw'r papur fel hyn.

Beth bynnag, os ydych am dderbyn copi wedi'i argraffu o'r papur ym mis Ebrill, cysylltwch â'r Golygydd ar benamarycwmni@yahoo.com

**Diolch yn Fawr**

## Rhiw'r Perai ar Dân

Cyflwyniad gan
Cwmni Cwm Ni

Nos Iau, Mawrth 3ydd

7:30 o'r gloch
The Legion Club,Machen

Mynediad £5 - £6

## RHIW'R PERAI ar ZOOM

**Stephen Clarke, Dydd Iau, Mawrth 17eg am 7:30 y.h.**

**Archaeoleg yng Nghoed Craig Rhiw'r Perai**

**Paul Busby, Dydd Iau, Mawrth 31ain am 7:30 y.h.**

**Castell Rhiw'r Perai: Hanes Personol**


**PWYLLGOR a SWYDDOGION**

*Ariennir yn rhannnol gan **Lywodraeth Cymru***

**Cadeirydd:** Robert Dutt **Ysgrifennydd Cofnodion:** Ann Lewis

**Trysorydd:** Eyron Thomas e.thomas119@btinternet.com

**Golygydd:** Ben Jones benamarycwmni@yahoo.com 02920 862428 07891916046

**Ysgrifennydd:** Marian Fairclough faircloughmarian@gmail.com 02920885151

**Dosbarthu a Golygydd Lluniau:** Mary Jones **Cynorthwy-ydd:** Jan Penney

**Gweplyfr/ Face book:** Papur Bro Cwmni **Y Pwyllgor:** Eirlys Thomas, Dilys Williams

**Hysbysebu:** Bethan Ollerton Jones, Menter Iaith

**Gwefan:** Menter IaithSir Caerffili.cymru/

**e-bost**: Golygydd@papurcwmni.cymru/ benamarycwmni@yahoo.com



**Cedwir yr hawl i gwtogi neu newid erthyglau neu luniau yn ôl gofynion golygyddol.**